



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



05 Medi 2019

Annwyl Gydweithwyr,

Roeddem am fanteisio ar y cyfle hwn i ysgrifennu gyda'n gilydd at Feddygon Teulu, Byrddau Iechyd a swyddogion Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn dilyn cyhoeddi'r Contract newydd ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol 2019-20 ym mis Mehefin.

Yn dilyn cyhoeddi'r contract newydd ar gyfer 2019-20, fe gafodd y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol 2013 eu diwygio i gynnwys y codiad a gytunwyd ar gyfer treuliau. Daeth hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2019, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2019.

Er i'r trafodaethau gymryd mwy o amser na'r hyn yr oeddem yn ei ddymuno, ers y cyhoeddiad rydym wedi canolbwyntio ar gyflwyno'r newidiadau a gytunwyd. Roedd angen ystyriaeth ofalus i roi'r newidiadau hyn ar waith, yn arbennig o ran amseriad yn ymwneud â thaliadau. Mae'r gwaith hwn dros yr ychydig fisoedd diwethaf wedi cynnwys drafftio canllawiau clir ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i sicrhau ein bod wedi ystyried ymarferoldeb y trefniadau newydd.

Ar 4 Medi, cafwyd cyfarfod i drafod y manylion, ac rydym yn falch o ddweud bod y canllawiau yn ymwneud â'r Fframwaith Sicrwydd a Gwella Ansawdd newydd, Safonau Mynediad a Phremiwm Partneriaeth bellach wedi'u cytuno a'u cyhoeddi ar <http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=480&pid=99340>. Bydd y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol 2013 hefyd yn cael eu diwygio i gynnwys y Fframwaith a'r Premiwm Partneriaeth newydd. Disgwylir i'r Cyfarwyddyd newydd ddod i rym ar 1 Hydref 2019.


Yn y cyfarfod hwn, cymerwyd y cyfle hefyd i edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, gan drafod sut y byddwn yn symud ymlaen â'r rhaglen ddiwygio yn unol â Cymru Iachach, ynghyd a rôl Grŵp Goruchwylio Contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.

Drwy gytundeb eleni rydym wedi ymrwymo i feysydd sylweddol o waith dros y flwyddyn nesaf, gan gynnwys adolygiad o safleoedd ac ystyriaeth o wasanaethau ehangach a gweithio mewn clystyrau. Ar ben hynny, mae angen newidiadau deddfwriaethol o ganlyniad i'r contract newydd.

Maent yn feysydd cymhleth ac eang i'w hystyried, ond rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd, mewn ffordd dair ochrog, i symud ymlaen gyda'r nod o argymhell newidiadau fydd yn sylfaen i gynaliadwyedd Ymarfer Cyffredinol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd Byrddau Iechyd yn gweithio gyda phractisau dros yr wythnosau nesaf i egluro'r newidiadau mewn mwy o fanylder. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y canllawiau neu'r newidiadau, cysylltwch â HSS-PrimaryCareMailbox@gov.wales

Yn gywir



Frances Duffy

Cyfarwyddwr

Llywodraeth Cymru



Judith Paget

Prif Weithredwr

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan



Phil White

Cadeirydd

GPC Cymru